



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ [pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk)

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



2.9.20

Annwyl Rieni,

Ymhellach i'r ebost a anfonais i'ch sylw ddoe, gweler rhagor o wybodaeth ynglŷn â'n trefniadau ar gyfer dechrau'r tymor newydd. Ymddiheuriadau am eich llethu â gwybodaeth, ond mae'n bwyisg eich bod yn glir ynglŷn â'r materion isod.

**Trefniadau boreau / Gollwng eich plentyn:** Fel a nodais yn fy ebost ddoe, rydym yn dychwelyd i oriau ysgol arferol. Dylai'r plant gael eu gollwng wrth giatiau'r iard rhwng 8.40am – 8.50am. Rhieni/gwarchodwyr y plant dosbarth Meithrin yn unig gaiff hebrwng eu plant at ddrws y dosbarth. Bydd y plant yn mynd yn syth i'w dosbarthiadau. Bydd y cymhorthyddion yn helpu i gyfeirio ac i annog y plant i fynd yn syth i'w dosbarthiadau. Bydd y giatiau yn cael eu cloi am 8.50am ac fe fydd y plant yn cael eu cofrestru. Os yw'ch plentyn yn hwyr, bydd angen i chi adrodd i'r brif dderbynfya.

**Clwb Gofal Bore / Clwb Brecwast am Ddim:** Bydd y Clwb Gofal Bore a'r Clwb Brecwast yn ail-agor ar 14/9/20. Mae'r **Clwb Gofal Bore rhwng 7.50am a 8.15am** gyda theuluoedd yn talu ffi o £1 y dydd y plentyn sydd i'w dalu ar-lein ar School Gateway. Os ydych yn dymuno manteisio ar y clwb brecwast am ddim, yna mae'r clwb yn cychwyn am **8.15am** a bydd brecwast yn cael ei weini hyd at **8.30am** – cofiwch, **ni** dderbynnir plant i'r clwb wedi'r amser yma. Os nad ydynt yn y Clwb Brecwast erbyn 8.30am dylech fod yn ymwybodol nad ydym yn derbyn cyfrifoldeb, nag yn goruchwyllo'r plant cyn 8.40am.

**Diwedd y diwrnod ysgol / Casglu'r plant:** Pan yn casglu eich plentyn, byddwch yn cael dod ar yr iard (rhieni y Meithrin i gasglu eu plant o'r drws ffyrnt). Fel oedolion cyfrifol, sicrhewch eich bod yn canfod gofod i ffwrdd oddi wrth rhieni eraill ac eich bod yn glynu at reolau ymbellhau cymdeithasol. Sefwch i ffwrdd oddi wrth y drysau/mynedfeydd gan ddisgwyl ar yr iard neu'r cae. Fel arfer, byddwn yn arwain disgyblion CA2 at y maes parcio / 'lôn gollwng a mynd'. Casgwch eich plentyn a gadewch y safle er mwyn osgoi tyrru a sicrhau ymbellhau corfforol o.g.y.dd.

**Clwb ar ôl Ysgol:** Bydd y Clwb Ar Ôl Ysgol yn cael ei gynnal yn y neuadd rhwng 3.15pm a 5:15 pm fel arfer yn ystod Tymor yr Hydref. Yn unol â'r arfer, bydd angen i chi gasglu eich plentyn/plant gan ddefnyddio'r drws yng nghefn y neuadd. Bydd y clwb yn dechrau ar y 3ydd o Fedi. Sicrhewch eich bod yn archebu lle i'ch plentyn/plant ar ddiwrnodau o'ch dewis ar School Gateway.

**Amseroedd chwarae / cinio:** Bydd Cyfnod Sylfaen a CA2 yn cael amseroedd chwarae / cinio ar wahân.

**Rheolau Hylendid / Trefniadau Glanhau:** Bydd y lanhawraig, gyda chymorth y staff, yn sicrhau bod yr holl arwynebau 'defnydd uchel' cael eu glanhau'n ddwfn ar ddiwedd y dydd. Bydd staff penodol yn glanhau arwynebau, handlenni drysau ac offer drwy gydol y dydd. Bydd golchi dwylo yn cael blaenoriaeth dros ddefnydd o lanweithyddion dwylo – bydd angen i'r plant olchi eu dwylo fel y byddant yn dod i fewn i'r dosbarth, cyn ac ar ôl bwyta, ac ar ôl dychwelyd i'r dosbarth ar ôl amser chwarae.

**Iechyd a Diogelwch** Wrth i ni barhau i ddilyn Canllawiau'r Llywodraeth, os bydd disgybl yn datblygu symptomau Covid-19 yn ystod y diwrnod ysgol, byddant yn cael eu hanfon adref a'u cynghori i ddilyn 'canllawiau aros gartref i aelwydydd sydd â haint coronafirws posibl neu wedi'i gadarnhau', sy'n nodi bod yn rhaid iddynt hunan-ynysu am o leiaf 7 diwrnod. Os digwydd hyn, dylech drefnu i'ch plentyn gael prawf i weld a oes ganddo/ganddi Covid-19. Byddem yn disgwyl i rieni gysylltu â'r ysgol gyda chanlyniad y prawf ar frys.

**Nosweithiau Rhieni a digwyddiadau/cyfarfodydd torfol:** Wrth i ni barhau i ddilyn canllawiau'r llywodraeth, bydd yr holl gyfarfodydd/digwyddiadau mawr yn cael eu canslo am y tro. Mae hyn yn golygu, ar hyn o bryd, nes i ni glywed yn wahanol, na chynhelir cyfarfodydd/nosweithiau rhieni. Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd yr ysgol yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os oes gennym unrhyw bryderon ynghylch eich plentyn. Bydd cyfarfodydd yn ail ddechrau cyn gynted ag y caniateir i ni wneud hynny.



**Manylion Cyswllt Brys Rhiant / Gofalwr** Gwnewch yn siŵr bod gan yr ysgol fanylion cyswllt cyfredol ar eich cyfer. Os ydych chi am hysbysu'r ysgol o unrhyw newid mewn manylion cyswllt, e-bostiwch yr ysgol ar [swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk](mailto:swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk).

**Gohebiaeth gan yr ysgol:** Ymhellach i'r pwynt uchod, rhaid i chi sicrhau bod eich rhif testun a'ch cyfeiriad ebost yn gyfredol er mwyn derbyn llythyrau a gohebiaeth gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn ceisio bod yn 100% ddi-bapur o fis yma ymlaen. Ni allwn fod yn gyfrifol am gyfathrebu a gollwyd os nad ydych wedi hysbysu'r ysgol o newid yn eich manylion. Os ydych chi'n ymwybodol bod negeseuon e-bost yn cael eu methu **gwiriwch eich ffolder junk/ sbam**; os yw'r neges yno, ychwanegwch ein cyfeiriad e-bost SchoolComms at eich rhestr cysylltiadau neu cliciwch ar 'Not Junk' o fewn eich gosodiadau. Os nad yw'r e-bost wedi cyrraedd o gwbl, e-bostiwch swyddfa'r ysgol [swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk](mailto:swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk). Dylai pob rhiant sicrhau bod yr ap School Gateway yn cael ei lawrlwytho ar gyfer ffonau Apple ac Android. Gallwn eich helpu os ydych chi'n cael anawsterau.

**Gwybodaeth Feddygol / Deietegol eich plentyn:** Eich cyfrifoldeb chi fel rhiant yw sicrhau ein bod â'r wybodaeth feddygol / deietegol gyfredol am eich plentyn. Os oes unrhyw newid i'w wybodaeth, yna mae'n hollbwysig eich bod yn ein hysbysu a bydd angen ail lenwi'r ffurflen berthnasol.

Os oes gan eich plentyn asthma ac yn ddibynol ar bwmp, disgwylwch fod disgyblion Bl.3-6 yn cadw y pwmp yn eu bagiau a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau eu bod yn cael eu cludo i'r ysgol yn ddyddiol. Byddwn yn cadw pypmiau disgyblion Meithrin – Bl.2 yn yr ysgol ac mae'n bwysig eich bod yn darparu pwmp i ni.

Mae yma blentyn ag alergedd cnau difrifol, felly gofynnwn i chi sicrhau nad yw eich plentyn yn dod â chnau i'r ysgol fel byrbryd neu mewn pecyn bwyd.

**Addysg Gorfforol:** Cynhelir gwersi addysg gorfforol ar y dyddiau yma:

*Meithrin/Derbyn – Dydd Mawrth*

*Bl.3 a 4 – Dydd Llun*

*Bl. 1 a 2 – Dydd Gwener*

*Bl. 5 a 6 – Dydd Gwener*

Sicrhewch fod gan eich plentyn siort, crys-T ac esgidiau ymarfer ar gyfer pob gwern. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau 'Dal i Fynd' sef rhedeg/loncian am 15 munud dair gwaith yr wythnos er mwyn hyrwyddo ffitrwydd a lles pob un disgybl.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad ac fe edrychaf ymlaen am flwyddyn o gydweithio esmwyth â chwi.

Yn gywir,

**Iwan Wyn Taylor**  
(Pennaeth)



